



teithiau cerdded ardal

LLANDUDNO

ehangwch eich gorwelion...

- Tair taith gylch
- O Llandudno i'r ardal o'i chwmpas
- Golygfeydd panoramig



Mae'r arweinyfr hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am dair taith gerdded wahanol o dref Llandudno i'r ardal wledig, y trefi a'r pentrefi o'i chwmpas. Yn ogystal â chyfarwyddiadau ar gyfer pob taith, ceir gwybodaeth ddiddorol am yr hanes, y bywyd gwyllt a'r nodweddion daearyddol a welwch wrth gerdded. Ceir map ar gyfer pob taith a map lleoliad i'ch helpu i ddod o hyd i'ch ffordd.

SUT I GYRRAEDD LLANDUDNO

Gyda Thrên: Mae gwasanaethau trên rheolaidd i Llandudno. I gael gwybodaeth am drenau ffoniwch y Llinell Ymholiadau Trenau Cenedlaethol ar:
08457 484950 neu ewch i:
www.nationalrail.co.uk (Edrychwch ar y map i weld ble mae'r orsaf drenau a man cychwyn y teithiau cerdded).

Gyda Bws: Mae gwasanaethau rheolaidd i Llandudno. I gael gwybodaeth am wasanaethau ffoniwch
Traveline Cymru ar 0870 608 2 608 neu ewch i:
www.traveline-cymru.org.uk
Gallwch hefyd ffonio'r Llinell Ymholiadau Cludiant Cyhoeddus ar 01492 575412. (Edrychwch ar y map i weld ble mae'r safleoedd bysiau).

Gyda Char: Gadewch yr A55 yng nghyffordd 19 a dilyn yr A470 i mewn i Llandudno.



↑ **Llwybr 1:** Golygfa o Drwyn y Fwch o'r promenâd

↶ **Dilynwch Y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda**
Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch





Llwybr 1:

Trwyn y Fuwch

Gwybodaeth am y daith

Taith gylch sy'n dechrau ar bromenâd Llandudno gan fynd â chi i ben Trwyn y Fuwch (141 metr) lle cewch olygfeydd llawn o'r arfordir, y mynyddoedd a Chonwy wledig.

Tirwedd: gwastad, anwastad, serth mewn mannau ac yn agos at ochrau clogwyni.

Pellter: 5.1 cilometr, 3.2 milltir.

Amser: tua dwy awr.

Llwybrau: llwybr â wyneb arno, palmant, gwair, a llwybr creigiog. Rhai giatiau mochyn.

Cŵn: Cadwch reolaeth dynn ar gŵn bob amser os gwelwch yn dda.

Map: Explorer OL17.

Cyfeirnod Grid Dechrau a Gorffen:

SH: 799822, Promenâd Llandudno.

Lluniaeth: ar gael yn Llandudno, Craig y Don a Bae Penrhyn.

Parcio: ar ochr y ffordd ar hyd y promenâd

BYDDWCHYN BAROD. Edrychwch ar ragolygon y tywydd cyn cychwyn. Gwisgwch esgidiau cerdded cryf ac ewch â dillad a lluniaeth addas gyda chi.



Yr olygfa o bwynt 3: pen uchaf Trwyn y Fuwch yn edrych dros gaeau Bodafon a bryn Nant y Gamar, gyda mynyddoedd y Carneddau yn y cefndir.

Llandudno

Cafodd tref Llandudno ei henwi ar ôl sant o'r 6ed ganrif, Tudno Sant. Codwyd eglwys Tudno Sant, ar y Gogarth, yn y 6ed ganrif yn wreiddiol a chodwyd un newydd yn ei lle yn y 12fed ganrif. Mae rhannau o'r eglwys a welwch heddiw'n dyddio o'r 12fed ganrif.

Mae'r dref yn gychfan glan môr bwrpasol a ddatblygwyd gan y teulu Mostyn ar ddiwedd y 1840au. Bu cysylltiad agos rhwng hanes y teulu Mostyn a datblygiad Llandudno dros y 500 mlynedd ddiwethaf. Mae'r teulu'n dal i chwarae rhan yn natblygiad a chadwraeth yr ardal heddiw. Yn Oes Fictoria, roedd yn ffasiynol mynd i lan y môr i gael awyr iach. Erbyn 1858 roedd y rheilffordd wedi cael ei hadeiladu, gan ei gwneud yn haws i ymwelwyr gyrraedd Llandudno. Heddiw daw pobl i ymweld â'r dref oherwydd ei siopau, ei phromenâd, ei hatyniadau megis y Gogarth ac i gerdded yn ei hardal wledig ysblennydd.


Bydd y tair taith gerdded sydd wedi'u cynnwys yn y llyfryn hwn yn mynd â chi allan o'r dref i'r ardal wledig o'i chwmpas. Mae'r bryniau agosaf sydd o amgylch y dref yn rhan o rwydwaith o laswelltir calchfaen ar hyd arfordir ganolog Conwy. Mae'r sir hon yn cynnwys un o'r canrannau uchaf o'r cynefin hwn yng Nghymru, gan wneud yr ardal hon yn un arbennig.





Allwedd / Key

- | | | |
|------------------------|-------------------------------|---------------------------------|
| Gwybodaeth Information | Coed Trees | Llwybrau Eraill Other Footpaths |
| Tafarn Pub | Tref Town | Trac Track |
| Golygfán Viewpoint | Dechrau y Daith Start of Walk | Giât Gate |
| Mainc Bench | Llwybr 1 Route 1 | |



Byddwch yn dilyn Llwybr y Gogledd am y rhan fwyaf o'r daith hon heblaw pan fyddwch yn ymweld â'r copa a chilometr olaf y Llwybr.

1 O bremenâd Llandudno cerddwch ar hyd y palmant ar ochr y môr tuag at Craigside (gweler y map). Daliwch i ddringo a mynd heibio'r tai. Wrth i'r tir wastatáu, chwiliwch am giât mochyn ar y chwith.

2 Ewch drwy'r giât a dilynwch Llwybr y Gogledd ar y dde. Arhoswch am funud i edrych ar y panel gwybodaeth. Cadwch i'r dde, ar ôl tua 400 metr ewch drwy giât mochyn. Ewch ymlaen at fan agored mawr â Llwybr yn troi i'r chwith a phostyn Llwybr y Gogledd o'ch blaen.

Wrth i chi gerdded ar hyd y Llwybr byddwch yn mynd heibio i amrywiaeth o blanhigion gwrych fel mieri, y ddraenen ddu a'r ddraenen wen. Maent yn gartref da i adar nythu fel yr aderyn du, y fronfraith, yr asgell fraith, llwyd y berth, y robin goch a'r dryw. Yn yr hydref mae'r aerion ar y planhigion yn fwyd i'r adar hyn. Hefyd gwyliwch am y titw tomos las, y titw mawr, y titw penddu a'r titw cynffon hir ac hefyd yn y gaeaf, adar sy'n ymweld â'r ardal megis coch yr adain.



↑ Dryw



↑ Draenen wen



↑ Cyfeirbwynt Llwybr y Gogledd, y byddwch yn ei weld ar ran fwyaf y Llwybr hwn.

3 I ymweld â'r copa, trowch i'r chwith yma. Ewch ymlaen am 200 metr at bostyn. Trowch i'r chwith eto er mwyn mynd at y piler triongli (marciwr concrit) ar y pen uchaf. **Cymerwch ofal yn agos at y clogwyni serth.**

O'r fan yma cewch olygfeydd gwych. Gyda'r môr y tu ôl i chi, o'r chwith i'r dde fe welwch drefi arfordirol y Rhyl, Bae Colwyn a Llandrillo-yn-Rhos. O'ch blaen mae Nant y Gamar gyda Dyffryn Conwy, y Carneddau a mynyddoedd eraill Eryri yn y cefndir. Ar y dde, mae trefi arfordirol Penmaenmawr a Llanfairfechan yn llechu rhwng pentiroedd yn y pellter. Cewch gip ar Ynys Môn uwchlaw'r môr, a gallwch weld tref Llandudno a phentir y Gogarth yn nes atoch.

Mae'r ardal o amgylch Llandudno'n cynnwys glaswelltir calchfaen yn bennaf. Gellir ei weld yn glir ar y 'bryniau gwyrddion' o'ch cwrpas ar y Gogarth, Nant y Gamar a Thrwyn y Fuwch. Mae'r ardaloedd hyn yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn Arfordir Treftadaeth, ac maent yn bwysig yn genedlaethol. Mae'r amgylchedd morol hefyd yn llawn cyfoeth ac amrywiaeth.



↑ Golygfa i'r Gogarth o Drwyn y Fuwch.

Dilynchwch yr un llwybr yn ôl o'r copa. Trowch i'r chwith i ailymuno â'r prif lwybr, (Llwybr y Gogledd). Ewch ymlaen ar lwybr glaswelltog drwy'r eithin a dilynchwch linell ffens ar y dde. (Peidiwch â dilyn y llwybr defaid ar y chwith.) Wrth i chi ddynesu at gornel y llinell ffens, **cymerwch ofal gan fod dibyn serth o'ch blaen.**

4 O'ch blaen ac islaw, fe welwch y giât y byddwch yn cerdded ati. Trowch i'r dde a dilynchwch y llwybr ar hyd llinell y ffens. Daliwch i fynd i lawr a rownd i'r chwith i gyrraedd y giât. Ewch drwy'r giât er mwyn anelu i lawr y llethr glaswelltog.

Mae'r creigiau a arferai fod yn rhan o chwarel bellach yn gartref i gryn dipyn o fywyd gwyllt. Yn y gwanwyn a'r haf maent yn dod yn fyw gyda sw'n gwyllanod penddu. Mae gwyllanod penwaig, gwyllanod cefnddu a gwyllanod y graig yn nythu yma. Mae nythu ar y creigiau'n eu cadw'n ddiogel rhag nifer o wahanol ysglyfaethwyr.

A wyddoch chi?

Mae gwyllanod y graig yn gallu arogl olew pysgod 15 milltir i fwrdd. Gallant hefyd fyw i fod yn 80 oed.



↑ **Pwynt 4:** Yn edrych i lawr ar wyneb nadeddig y graig. ↑ Gwyllan y graig

Llwybr 2:
Nant y Gamar

Gwybodaeth am y daith

Taith gylch yn cychwyn o Graig y Don ar un o'r ffyrdd hynaf yr ardal. Byddwch yn cylchu'r bryn a mynd heibio i Ochr Penrhyn a chewch olygfa banoramig am filltiroedd o'ch cwmpas.

- Tirwedd:** dringfeydd graddol trwy goetir a thros laswelltir calchfaen. Llwybr glaswelltog, gweddol serth tuag at i lawr.
- Pellter:** 5.9 cilometr, 3.7 milltir.
- Amser:** tua dwy awr.
- Llwybrau:** palmant, gwair, coetir â rhywfaint o dir anwastad. Giatiau mochyn. Un gamfa gerrig yn agos at ddechrau'r daith.
- Cŵn:** Cadwch reolaeth dynn ar gŵn bob amser os gwelwch yn dda.
- Map:** Explorer OL17.
- Cyfeirnod Grid Dechrau a Gorffen:** SH796813, Ffordd Fferm Bach.
- Lluniaeth:** Ar gael yng Nghraig y Don.
- Parcio:** Ar ochr y ffordd ar hyd Ffordd Fferm Bach.

BYDDWCH YN BAROD. Edrychwch ar ragolygon y tywydd cyn cychwyn. Gwisgwch esgidiau cerdded cryf ac ewch â dillad a lluniaeth addas gyda chi.



Yr olygfa o bwynt 3: pen uchaf Trwyn y Fuwch yn edrych dros gaeau Bodafon a bryn Nant y Gamar, gyda mynyddoedd y Carneddau yn y cefndir.

5 Ar waelod y llethr (yr hen inclein) efallai y byddwch am droi i'r chwith i ymweld ag Porth Dyniewaid cyn mynd yn ôl i waelod y llethr. Ewch ymlaen a dilynchwch y prif lwybr. Bydd ffens ar y chwith ac ardal fawr a arferai fod yn rhan o chwarel ar y dde. Ewch heibio i'r troad ar gyfer Llwybr y Gogledd ar y chwith a'r hysbysfwrdd ar y dde. Arhoswch am funud i edrych ar yr hysbysfwrdd. Wrth gyffordd y llwybrau ewch yn eich blaen trwy giât mochyn at lôn fechan. Wrth i chi gerdded ar hyd y lôn, chwiliwch am droad a giât mochyn ar y dde. Mae o'r golwg braidd ar dro pedol.

6 Ewch drwy'r giât a dilynchwch y llwybr drwy'r coetir a chadwch i'r chwith. Wrth i chi ddynesu at dŷ, ewch drwy'r giât i fynd yn eich blaen heibio i'r tŷ a'r adeiladau. Dilynchwch y dramwyfa at y briffordd. Trowch i'r dde i ddychwelyd at fan cychwyn y daith.



↑ Edrych i lawr ar Porth Dyniewaid.

1 Wrth edrych i fyny Ffordd Fferm Bach, cerddwch ar hyd y palmant ar yr ochr chwith a dilynchwch y ffordd i fyny a rownd i'r chwith. Yn syth ar ôl y gornel, edrychwch ar draws y ffordd ac fe welwch arwydd: Ffordd Fferm Bach a dwy dramwyfa. **Croeswch y ffordd yn ofalus** a dilynchwch y dramwyfa/trac ar y dde lle mae arwydd llwybr troed. Ewch yn eich blaen heibio i'r tŷ a thros gamfa gerrig. Cerddwch blaen ar hyd llinell y ffens heibio i Fferm ar eich llaw dde at y rheiliau pren a'r Pwll Nadroedd ar y chwith.

Mae ffyrdd Fferm Bach a Than-y-bryn gyda'r hynaf yn yr ardal. Arferent gysylltu Llanrhos ag Ochr Penrhyn trwy Ffordd Bodafon a Ffordd Nant y Gamar a oedd yn arwain o'r chwareli.

Ychydig ar ôl y gamfa, chwiliwch drwy'r coed ar y chwith am y clogwyni. Mae'r clogwyni yn lleoedd nythu da i wylanod, gwyllanod y graig a jacdoeau. Weithiau gallwch weld cwingnod, llwynogod, sgrech y coed a boncathod ar hyd y llwybr. Ar y dde, cewch edmygu'r olygfa tuag at ddau fryn y Fardre gyda Mynydd y Dref a Thal y Fan yn y pellter.

Mae Fferm yn un o'r ffermdai cynharaf yn yr ardal, ac yn dyddio o tua'r 17eg ganrif.




← Cafodd y 'Pwll Nadroedd' ei enw oherwydd siâp y canghennau toredig sy'n gorwedd o amgylch y lle.

2 Daliwch i ddilyn llinell y ffens at wal sydd o’ch blaen a chyffordd llwybrau troed. Trowch i’r chwith i ddilyn y llwybr wrth ymyl y wal a thrwy giât mochyn. Ewch yn eich blaen drwy’r goedwig (Coed y Gaer) am 400 metr. Trowch i’r chwith ar hyd y trac. Cadwch i’r chwith i adael y trac a dilynwch y llwybr troed gan gerdded y tu ôl i Goleg Dewi Sant ar y dde.

Mae’r enw Coed y Gaer yn awgrymu y gallai’r coed fod yn cuddio caer, ond nid oes tystiolaeth o hyn yn y goedwig. Mae tystiolaeth o gylchoedd cytiau roedd pobl yn byw ynddynt rhwng 1000 CC a 1000AD mwy na thebyg.

Mae tystiolaeth hefyd o ddrysa a blannwyd oddeutu 1700. Ym 1856 ysgrifennodd John Hicklen yn ei Illustrated Hand Book of Llandudno fod ‘y ddrysa’n fwy na’r un yn Hampton Court ond bod angen ei hadnewyddu...’

Arferai Coleg Dewi Sant gael ei adnabod yn ôl yr enw Gloddaeth. Daeth y tŷ’n eiddo i’r teulu Mostyn, sy’n berchnogion tir arwyddocaol yn yr ardal, am y tro cyntaf ym 1460. Mae’r tŷ presennol yn dyddio o’r 16eg ganrif.



↑ Lluon o’r ddrysa gan George Felton ym 1860 yn seiliedig ar fap o 1742.

3 Ewch yn eich blaen drwy’r goedwig am tua 150 metr. Ewch drwy’r giât mochyn i ddilyn llwybr wedi’i farcio â physt concrit mawr i fyny ac ar hyd ochr chwith y cae.

Wrth i chi gerdded i fyny’r cae cewch edmygu’r olygfa ar y dde (gweler y llun isod).

4 Ewch drwy giât mochyn a dilynwch y llwybr drwy’r goedwig am ryw 180 metr arall. Ar ymyl y goedwig ewch drwy giât mochyn arall sy’n arwain at laswelltir calchfaen.

Mae’r ardal agored o’ch blaen a Choed y Gaer yn rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae’r ardal agored o’ch blaen yn arbennig am ei bod yn rhan o rwydwaith mwy o laswelltir calchfaen ar hyd arfordir ganolog Conwy. Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy un o’r canrannau uchaf o laswelltir calchfaen yng Nghymru. Mae Coed y Gaer yn arbennig am ei bod yn goedwig ynn gymysg ucheldirol. Mae hwn yn fath o goetir sy’n tyfu mewn pridd llawn calch. Chwiliwch am goed megis yr onnen, yr ywen a’r llwyfen llydandail.



↑ Mae’r merywen yn blanhigyn prin sy’n hoff o fyw ar y glaswelltir calchfaen. Aeron merywen a ddefnyddir i wneud gin.



↑ Golygfa dros Ysgol y Creuddyn yn y tu blaen tuag at dref Llandrillo-yn-Rhos. Ar y bryn ar y dde fe welwch Eglwys Llandrillo-yn-Rhos ac ymhellach eto i’r dde mae ardal goediog Bryn Euryr (heb fod yn y llun).

5 Trowch i’r dde a dilynwch y llwybr ar hyd ymyl y wal. Anelwch tuag i lawr, drwy giât mochyn ac i mewn i’r goedwig. Wrth gornel y wal ewch drwy’r giât mochyn. Dilynwch y llwybr uchaf ar eich llaw chwith er mwyn mynd yn eich blaen. Ewch yn eich blaen ar draws ardal agored ac ewch drwy ddwy giât mochyn arall yn y coetir. Wrth i chi gyrraedd y tai ar y dde, chwiliwch am droad sydyn i’r chwith sy’n mynd i’r un cyfeiriad ag y daethoch ohono a thrwy’r eithin. (Os dewch at giât mochyn mewn cornel sy’n arwain at ffordd, rydych wedi mynd yn rhy bell).



6 I ddechrau, cadwch i’r chwith drwy’r eithin ac yna ewch yn eich blaen am ryw 200 metr at giât (ond peidiwch â mynd drwyddi) a llinell ffens.

Ar draws y caeau fe welwch hen felin wynt. Fe’i hadeiladwyd yn wreiddiol i Syr Roger Mostyn rywbryd rhwng 1617 a 1642.

7 Dilynwch y llinell ffens/wal ar y chwith. Pan ddewch at agoriad, cewch edmygu golygfeydd o Landudno a’r Gogarth. Ewch drwy giât mochyn ar y dde i fynd heibio i’r tai. Ewch yn eich blaen tuag i lawr i ymuno â thrac. Arhoswch wrth y gornel gyntaf a giât ar eich llaw chwith.

Caeau Bodafon yw’r caeau a welwch yn agos at y lan. Dros y blynyddoedd cyflwynwyd nifer o gynigion i ddatblygu’r safle hwn. Hyd yn hyn, ‘Caeau Bodafon’ ydynt o hyd.

8 Ewch drwy’r giât a dilynwch y llwybr ceffylau am ryw 200 metr. (Caniateir marchogaeth ceffylau ar y rhan hon.) Ewch drwy giât a chroeswch ffordd gul. Ewch drwy giât arall a dilynwch y llwybr troed. Wrth i’r llwybr wyro i’r chwith ac i mewn i’r goedwig, cadwch i’r chwith ar hyd y llwybr uwch.

Neuadd a Fferm Bodafon yw’r adeiladau a’r tŷ gwyn a welwch drwy’r coed islaw. Mae’r neuadd bresennol yn Adeilad Rhestredig Gradd 2 ac yn dyddio o’r 18fed ganrif.

9 Gan gadw i’r chwith, cerddwch i fyny’r grisiau ac yn eich blaen i fyny gyda wal ar y chwith. Wrth i chi adael y goedwig am ardal agored, cadwch i’r dde ar hyd llwybr yn agos at linell ffens. Ewch ymlaen am tua 200 metr at ffordd a thrac.

10 Trowch i’r dde i ymuno â’r ffordd. Ychydig ar ôl y giatiau dwbl ar y chwith, trowch i’r chwith i ddilyn ffordd breifat heibio’r tai. Ar ddiwedd y trac, cadwch i’r chwith ac ewch i fyny i ardal agored. Ewch yn eich blaen gan gadw’n agos at y llinell ffens ar y dde.

11 Wrth gornel y llinell ffens, ewch yn eich blaen at arwyddbost gan edmygu’r golygfeydd ar hyd yr arfordir ac i lawr y dyffryn. Dilynwch y llwybr troed i lawr y llethr at y wal. Ewch yn ôl yr un ffordd at ddechrau’r daith.

Llwybr 3:

Llanrhos & Deganwy

Gwybodaeth am y daith

Taith gylch o Llanrhos ar hyd hen llwybr i ymweld â'r safle ar y Fardre lle safai Castell Deganwy ers talwm.

- Tirwedd:** Rhai llethrau graddol a thir anwastad.
- Pellter:** 3.6 cilometr, 2.2 milltir.
- Amser:** tua awr.
- Llwybrau:** palmant, gwair, traciau â wynebaw arnynt. Gall fod yn fwdlyd gan ddiwynnu ar y tywydd. Camfeydd a giatiau.
- Cŵn:** Cadwch reolaeth dynn ar gŵn bob amser os gwelwch yn dda.
- Map:** Explorer OL17.
- Cyfeirnod Grid Dechrau a Gorffen:** SH789800, Bryn Lupus Road, Llanrhos.
- Lluniaeth:** Ar gael yn Llanrhos.
- Parcio:** Ar ochr y ffordd ar hyd Bryn Lupus Road.

BYDDWCH YN BAROD. Edrychwch ar ragolygon y tywydd cyn cychwyn. Gwisgchw esgidiau cerdded cryf ac ewch â dillad a lluniaeth addas gyda chi.



Un o'r ddau fryn ar y Fardre lle safai Castell Deganwy ers talwm.

1 O safle bysiau Bryn Lupus Road, cerddwch ar hyd y ffordd tuag at y caeau. Trowch i'r chwith i lawr y dramwryfa i Fferm Plas Dolau. Dilynwch y dramwryfa rownd i'r dde lle gwelwch arwydd llwybr troed o'ch blaen. Dilynwch y llwybr troed rhwng yr adeiladau a thŷ'r warden gan fynd heibio i giât. Wrth y giât nesaf ewch dros y gamfa a cherddwch ar hyd y trac at gamfa arall.



Fe sylwch fod wyneb y trac yn is na'r caeau ar y ddwy ochr. 'Ceuffordd' yw'r enw ar hyn ac mae'n dystiolaeth bod y trac wedi cael ei ddefnyddio yn yr hen amser fel llwybr o'r Fardre tua'r dwyrain.

2 Ewch dros y gamfa. Cerddwch yn syth i fyny ac ar draws y cae, gan anelu rhwng dau fryn bychan. Wrth i chi groesi'r cae byddwch yn gweld llinell ffens a chamfa. Ewch dros y gamfa a dilynwch y ffens rownd i'r dde. Wrth y gamfa nesaf ewch yn eich blaen (bydd byngalos ar y dde), nes eich bod yn dod at llwybr troed o Faes y Castell (y stad o fyngalos) ar y dde.

3 Yma, trowch fel bod y gamfa'r tu ôl i chi. Cerddwch yn syth ymlaen gan anelu at ochr dde isaf y bryn mawr â phen gwastad. (Bydd y llun ar y dudalen hon a'r map yn eich helpu i ddod o hyd i'r ffordd.)



Yr olygfa o bwynt 3: tuag at y brynau ar y Fardre lle safai Castell Deganwy ers talwm. Mae'r llinell doredig yn dangos cyfeiriad y daith gerdded.



Argraff arlunydd o'r olygfa ers talwm wrth edrych tuag at Gastell Deganwy o bwynt 5.

Ar y bryn â phen gwastad a'r bryn ar yr ochr chwith iddo y safai Castell Deganwy ers talwm. Ers cyfnod y Rhufeiniaid bu pobl yn byw ar y brynau. Ar sawl achlysur mae sawl cenedl wedi adeiladu castell, wedi brwydro drosto, wedi'i ddymchwel ac wedi'u ailadeiladu. Ym 1277 cafodd y castell ei ddymchwel am y tro olaf gan y Cymry (a'i meddiannodd ar y pryd) i atal Edward I rhag ei feddiannu. Fe ymosododd Edward ar y castell a defnyddio'r cerrig i adeiladu Castell Conwy ychydig pellach ar hyd y foryd.

4 Ewch yn eich blaen rownd y bryn a dilynwch y llwybr drwy'r eithin a'r rhedyn. Fe welwch derfyn a thai o'ch blaen a giât mochyn i lawr ar y dde. Cerddwch rownd i'r chwith gan ddilyn y llwybr troed at gamfa a giât.



← Pobl yn edrych ar y plac rhwng y ddau fryn sy'n egluro bod castell yma ers talwm.

5 Ewch dros y gamfa. Dilynwch y terfyn ar eich llaw dde i ddechrau ac yna ewch yn eich blaen at giât rhwng y ddau fryn. Ewch drwy’r giât. Ewch yn eich blaen ac i’r chwith ar hyd llwybr troed sy’n cael llawer o ddefnydd, drwy’r eithin ac at laswelltir mwy agored. Byddwch yn mynd heibio i linell ffens. Wrth edrych islaw fe welwch res o dai sy’n cefnu ar y Fardre. (Wrth i chi gerdded i lawr rydych yn anelu am ochr chwith y tai hyn.) Ewch tuag i lawr ar lwybr glaswelltog sy’n cael llawer o ddefnydd gan anelu at gamfa. Ewch dros y gamfa a dilynwch lwybr clir i lawr i’r chwith. Ewch drwy giât mochyn sy’n arwain at ffordd.

Fe welwch yr A55 yn mynd o dan yr afon y naill ochr i’r foryd. Yr ochr draw i’r afon mae Marina Conwy.

A wyddoch chi?

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd roedd y safle’n cael ei ddefnyddio i adeiladu’r porthladdoedd Mulberry, a ddefnyddiwyd i lanio yn Normandi ar Ddydd D.



↑ Yr olygfa o safle sydd rhwng pwyntiau 5 a 6: Yn edrych tuag at Gastell a Thref Gaerog Conwy.

6 Trowch i’r chwith ar hyd tramwyfa. Wrth y gornel gyntaf ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr troed. Dilynwch y llwybr am ryw 300 metr gan fynd drwy giât mochyn nes y dewch at drac. Trowch i’r chwith gan ddilyn y trac at ben draw’r cae bychan ar y dde. Yma fe welwch lwybr troed cul (ychydig cyn y parc carafannau).

7 Dilynwch y llwybr troed yma, ar draws tramwyfa, ac ewch yn eich blaen ar hyd llwybr troed arall ar hyd ymyl cae. Ym mhen draw’r cae ewch dros gamfa i mewn i barc carafannau. Ewch yn eich blaen a throwch i’r dde gan ymuno â ‘ffordd y parc’. Dilynwch y ffordd rownd i’r chwith. Wrth i’r ffordd sythu, chwiliwch am arwydd llwybr troed (ar y chwith) sy’n eich cyfeirio rhwng y carafannau ac ar hyd llwybr troed i’r dde. Ewch drwy giât mochyn gan ddilyn terfyn y cae ar y chwith. Ewch drwy’r giât mochyn nesaf ac fe ddewch at y dramwyfa y dechreuoch chi’r daith arni. Ewch yn ôl yr un ffordd ag y daethoch at ddechrau’r daith.

Taith fer opsiynol i Eglwys Sant Ilar

O safle bysiau Bryn Lupus Road, cerddwch tuag at y tai. Cymrwch yr ail droad ar y chwith i lawr Hill View Road. Ar y gornel waelod fe welwch arwydd llwybr troed. Dilynwch y llwybr hwn.

Ychydig y tu ôl i’r ystad hon mae safle Ffynnon Santes Fair. Yn anffodus nid yw’n hawdd i’w gweld heddiw. Rhoddwyd y gorau i’w defnyddio pan gysylltwyd Llanrhos â phrif gyflenwad dŵr Llandudno. Mae’n bosibl bod y ffynnon yn hŷn na’r eglwys ac efallai mai dyma’r rheswm dros ei lleoliad. Cloddiwyd ac adferwyd y ffynnon gan Ken Davies o Hill View Road ym 1994.

Ewch ymlaen ar hyd y llwybr at y B5115 i Landudno. Trowch i’r chwith a dilynwch y palmant at Eglwys Sant Ilar. **Cymerwch ofal wrth groesi’r ffordd.**



↑ Eglwys Sant Ilar, Llanrhos.

Eglwys Sant Ilar yw’r eglwys hynaf ym mhlwyf Llanrhos. Ailadeiladwyd yr eglwys a welwch chi heddiw i raddau helaeth ym 1865. Ond mae’r traddodiad Cristnogol yma’n dyddio o gyfnod cynnar iawn, sef canol y 6ed ganrif. Maelgwn Gwynedd, a oedd yn byw mewn castell ar y Fardre, gododd yr eglwys wreiddiol ar y safle hwn. Mae’n debyg iddo farw yma hefyd o’r dwymyn felen.

Wnaethoch chi fwynhau eich taith? I weld rhagor o Landudno a’r ardal wledig o’i chwmpas dyma rai teithiau cerdded eraill y byddech o bosib yn eu mwynhau.

Y Gogarth

Dewch i Ddarganfod y Gogarth
Taith Hanesyddol y Gogarth
Taith Natur y Gogarth
Teithiau Copa’r Gogarth

Llwybr Arfordirol Cymru Gyfan

Mae Llwybr y Gogledd a Llwybr Arfordirol Cymru Gyfan yn dilyn arfordir Llandudno.
I gael rhagor o wybodaeth am y teithiau hyn, ffoniwch 01492 575290

Teithiau iechyd

Mae gan Landudno bromenâd gwych â golygfeydd ardderchog ar gyfer teithiau byr a hawdd. I gael rhagor o wybodaeth am ‘Gerdded Llwybr Iechyd’, ewch i:
www.whi.org.uk

Ewch i siop lyfrau leol neu chwiliwch ar y rhyngwrwyd am lyfrau ar deithiau cerdded yn Llandudno.